Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

# Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyhoeddi** | **Medi 2016** |
| **Dyddiad Adolygu** | **Gorffennaf 2018** |
| **Awdur** | **Kay Morgan<br>Is-bennaeth Gwasanaethau Academaidd** |
| **Lleoliad y Polisi** | **BIZ-Sharepoint/Intranet/Policies & Procedures/Learner Services & Support** |
| **Cymeradwywyd y Polisi Gan** | **Tîm Rheoli'r Coleg** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Diben y weithdrefn hon yw rhoi arweiniad i fyfyrwyr a staff ar y weithdrefn i'w dilyn os bydd y Cod Ymddygiad yn cael ei dorri.

1.2 Mae gan y Coleg yr hawl a'r awdurdod i ddisgyblu myfyrwyr ac i ddiarddel neu wahardd **unrhyw** fyfyriwr.

1.3 Bydd y Coleg yn cysylltu â'r Heddlu pan fo angen.

1.4 Pan fydd salwch/anabledd yn atal myfyriwr rhag cydymffurfio yn llawn â'r Cod Ymddygiad, bydd ystyriaeth arbennig yn cael ei gwneud.

1.5 Os yw’r myfyriwr o dan 18 oed ar ddechrau’r cwrs, mae’n bosibl y byddwn yn ysgrifennu at y rhieni/gwarcheidwaid i roi gwybod iddynt yng Nghamau 2 a 3 (gweler paragraff 6 o'r weithdrefn hon) oni bai yr ystyrir hyn yn amhriodol gan Reolwyr y Coleg.

1.6 Wrth ddehongli’r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr hon mae penderfyniad y Coleg yn derfynol.

1.7 Gall y Coleg ddiwygio’r Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr hon ar unrhyw adeg neu wyro oddi wrthi yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

## 2. Myfyrwyr ar Raglenni 14-16

2.1 Mae’r gweithdrefnau disgyblu a ddatblygwyd gan y maes yn weithredol i fyfyrwyr 14-16 ac mae copi ar gael gan y Rheolwr neu’r Deon perthnasol. Fodd bynnag, os credir bod myfyriwr wedi cymryd rhan mewn gweithred o Gamymddwyn Difrifol, gall Rheolwr Ysgolion neu'r Deon sy'n gyfrifol am y maes ddefnyddio'r broses a amlinellir yng Ngham 3 (Camymddwyn Difrifol).

2.2 Yn yr achos hwn bydd y Panel Disgyblu yn cynnwys Cadeirydd y Panel, y Rheolwr Ysgolion neu'r Rheolwr Maes Dysgu a chynrychiolydd o’r ysgol a/neu sefydliadau allanol perthnasol.

## 3. Myfyrwyr Rhan-amser

3.1 Os ydych yn fyfyriwr rhan-amser neu'n dilyn rhaglen Dysgu Seiliedig ar Waith ac nid oes tiwtor personol gennych, bydd unrhyw fater disgyblu yn cael ei drin gan y Rheolwr Maes Dysgu perthnasol.

## 4. Enghreifftiau o dorri'r Cod Ymddygiad

4.1 Mae'r Coleg yn ystyried y canlynol fel enghreifftiau o **gamymddwyn**:

4.1.1 Parhau i beidio â chyflwyno gwaith cwrs;
4.1.2 Methu â gwisgo dillad priodol neu fethu â dod ag offer hanfodol i'r dosbarth;
4.1.3 Methu â dod â’ch Cerdyn Adnabod Myfyriwr gyda chi;

4.1.4 Twyllo neu lên-ladrad mewn gwaith cwrs academaidd neu mewn arholiadau;
4.1.5 Bygythiadau i iechyd a diogelwch, megis camddefnyddio diffoddwyr tân a larymau tân;
4.1.6 Ysmygu y tu allan i ardaloedd dynodedig;
4.1.7 Amharu ar, neu ymyrraeth amhriodol â gweithgareddau academaidd, gweinyddol, chwaraeon, cymdeithasol neu weithgareddau eraill y Coleg neu ddyletswyddau neu weithgareddau unrhyw ddysgwr, ymwelydd neu aelod o staff y Coleg;
4.1.8 Torri amodau unrhyw un o bolisïau'r Coleg, gan gynnwys rheolau a rheoliadau sy'n ymwneud ag asesu allanol;
4.1.9 Methu â datgelu manylion personol i aelod o staff y Coleg neu fethu â chadw manylion yn gyfoes mewn amgylchiadau lle mae'n rhesymol i ofyn am yr wybodaeth neu lle y gall arian neu ffioedd gael eu heffeithio;
4.1.10 Methu â pharchu hawliau pobl eraill i ryddid cred a rhyddid barn;
4.1.11 Methu ag ymateb i gyfarwyddyd rhesymol yn ymwneud â disgyblaeth, a roddwyd ag awdurdod pennaeth y sefydliad;
4.1.12 Defnyddio ffonau symudol (gan gynnwys fideos) mewn mannau dysgu oni bai y'u defnyddir at ddibenion astudio e.e. y darlithydd yn gofyn i chi eu defnyddio fel rhan o'r wers neu i wneud gwaith ymchwil yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu.

4.2 Mae'r troseddau canlynol yn enghreifftiau o **Gamymddwyn Difrifol**:

4.2.1 Unrhyw ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd.
4.2.2 Gweithred sy'n debygol o achosi niwed neu amharu ar ddiogelwch ar dir y Coleg gan gynnwys cludiant i ac o'r Coleg gan gynnwys iaith neu ymddygiad treisgar, anweddus, afreolus, bygythiol, neu ymosodol.
4.2.3 Defnyddio neu feddu ar arfau.
4.2.4 Ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys: ymddygiad rhywiol a hiliol neu unrhyw fath arall o fwlio neu aflonyddu ar unrhyw ddysgwr neu aelod o staff y Coleg, neu unrhyw ymwelydd â'r Coleg, gan gynnwys gwneud cyhuddiadau maleisus a di-sail yn erbyn unigolyn arall.
4.2.5 Twyll, ystryw, dichell neu anonestrwydd mewn perthynas â'r Coleg neu ei staff, ei ddysgwyr neu ei ymwelwyr.
4.2.6 Difrod, lladrad neu gamddefnyddio eiddo neu safleoedd y Coleg, neu eiddo staff, dysgwyr neu ymwelwyr y Coleg, gan gynnwys camddefnyddio cyfrifiaduron yn fwriadol neu'n ddi-hid.
4.2.7 Bod â chyffuriau, alcohol neu doddyddion yn eich meddiant (neu fod o dan eu dylanwad) yn y Coleg, ar gludiant y Coleg neu yn ystod gweithgareddau'r Coleg.
4.2.8 Gyrru heb ofal a sylw dyladwy ar dir y Coleg ac i ac o'r Coleg.
4.2.9 Troseddau'n ymwneud â chyfrifiaduron, er enghraifft hacio neu lawrlwytho pornograffi neu gemau neu negeseuon e-bost difrïol a'r rhai a amlinellwyd ym Mholisi Defnydd Derbyniol o TG y Coleg.
4.2.10 Dwyn anfri ar y sefydliad, e.e. trwy fod yn euog o gyflawni trosedd neu ddifrodi eiddo y tu allan i'r sefydliad.

4.3 Nid yw’r enghreifftiau hyn ym mharagraffau 4.1 a 4.2 yn cynnwys popeth.

4.4 Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd unrhyw achosion o dorri'r Polisi Presenoldeb Myfyrwyr yn cael ei drin yn unol â'r weithdrefn ddisgyblu yn y Polisi Presenoldeb Myfyrwyr.

## 5. Ymchwiliad

5.1 Efallai y bydd y Coleg yn enwebu rhywun i ymchwilio’n brydlon a thrylwyr i unrhyw fater yr amheuir yn rhesymol neu y credir ei fod yn torri unrhyw un o bolisïau'r Coleg neu'r Cod Ymddygiad neu gall fod yn fater disgyblu fel arall.

5.2 Bydd y sawl a gyhuddir yn cael gwybod cyn gynted ag y bo modd a fydd ymchwiliad yn cael ei gynnal a beth yw canlyniad yr ymchwiliad. Bydd hyd unrhyw ymchwiliad sy'n ofynnol yn dibynnu ar natur yr honiad a bydd yn amrywio o achos i achos.

5.3 Os bydd mater yn cael ei ymchwilio gan yr Heddlu, ni fydd yn ofynnol i'r Coleg aros am ganlyniad unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu cyn cynnal ei ymchwiliad ei hun.

5.4 Yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, efallai y cewch eich gwahodd i ddod i gyfweliad ymchwilio cyn gwrandawiad disgyblu. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i beidio â chynnal cyfweliad ymchwilio a symud ymlaen yn uniongyrchol i wrandawiad disgyblu ffurfiol.

5.5 Mewn achos o ymchwiliad i honiad o gamymddwyn difrifol efallai y bydd y Coleg yn eich gwahardd tan y gwrandawiad disgyblu os bydd y Coleg yn credu bod hyn yn angenrheidiol. Nid yw gwahardd o'r math hwn yn awgrymu bod penderfyniad eisoes wedi'i wneud am yr honiadau.

## 6. Gweithdrefnau Disgyblu Camau 1, 2 a 3 (Camymddwyn)

6.1 Gweler y siart llif yn Atodiad 1 (Camymddwyn).

6.2 Ar ôl cwblhau ymchwiliad neu os nad yw ymchwiliad yn briodol, os oes sail resymol i gredu eich bod wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn, byddwch yn cael eich gwahodd i ddod i gyfarfod.

6.3 **Cam 1**: Defnyddir y cam hwn i fynd i'r afael â mân achosion o dorri'r Cod Ymddygiad. Bydd gan y Coleg yr hawl i roi naill ai rhybudd llafar i chi neu rybudd ysgrifenedig fel y bo’n briodol.

6.4 Mae'r cam hwn yn cael ei weithredu naill ai gan y Tiwtor Personol / Mentor neu aelod enwebedig o staff.

6.5 **Cam 2**: Defnyddir y cam hwn i fynd i'r afael ymhellach ag achosion o dorri'r Cod Ymddygiad neu fethu â gwella ar ôl rhybudd llafar neu ysgrifenedig. Bydd gan y Coleg yr hawl i roi naill ai rhybudd llafar neu rybudd ysgrifenedig pellach i chi fel y bo’n briodol.

6.6 Mae'r cam hwn yn cael ei weithredu gan y Tiwtor Arweiniol ar gyfer myfyrwyr Safon Uwch a Sgiliau Byw'n Annibynnol, yr Arweinydd Cwricwlwm ar gyfer myfyrwyr Galwedigaethol neu'r Rheolwr Maes Dysgu ar gyfer myfyrwyr ar raglenni dysgu seiliedig ar waith.

6.7 Ar gyfer **Cam 1** a **Cham 2** gall staff ddefnyddio un o'r camau canlynol neu gyfuniad ohonyn nhw mewn ymdrech i ddatrys y camymddwyn:

6.7.1 Rhoi rhybudd llafar neu ysgrifenedig, rhybudd ysgrifenedig terfynol (Cam 2) neu gontract ysgrifenedig.
6.7.2 Efallai y cewch eich rhoi ar adroddiad am gyfnod penodedig gyda dyddiadau adolygu.
6.7.3 Gall rhestr o amodau gael ei llunio lle caniateir i chi aros yn y Coleg.
6.7.4 Efallai y bydd y Coleg yn cysylltu â rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid.
6.7.5 Efallai y cewch eich atgyfeirio i'r adran Gwasanaethau Myfyrwyr i gael arweiniad a/neu gwnsela.

6.8 Bydd y camau y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi a'u cadw ar eich ffeil bersonol. Bydd gofyn i chi lofnodi'r camau y cytunwyd arnynt.

6.9 **Cam 3**: Mae'r cam hwn yn cael ei ddefnyddio ar ôl torri'r Cod Ymddygiad ymhellach a bydd yn arwain at waharddiad o'r Coleg.

6.10 Mae'r cam hwn yn cael ei weithredu gan y Rheolwr Maes Dysgu neu'r Maes Dysgu Cynorthwyol.

## 7. Gweithdrefn ar gyfer Gamymddwyn Difrifol

7.1 Ar ôl cwblhau ymchwiliad neu os nad yw ymchwiliad yn briodol, os oes sail resymol i gredu eich bod wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn, byddwch yn cael eich gwahodd i ddod i wrandawiad disgyblu.

7.2 Os bydd gwrandawiad disgyblu bydd y Coleg yn:

7.2.1 rhoi o leiaf dau ddiwrnod gwaith yn ystod y tymor o rybudd ymlaen llaw i chi o'r gwrandawiad;
7.2.2 rhoi manylion ysgrifenedig i chi am natur y camymddwyn honedig;
7.2.3 dweud wrthych beth yw diben y gwrandawiad ac y bydd yn cael ei gynnal o dan Weithdrefn Disgyblu'r Coleg;
7.2.4 esbonio'ch hawl i gael cwmni cydymaith
yn y gwrandawiad.

7.3 Os na allwch fynychu gwrandawiad disgyblu am resymau y tu hwnt i'ch rheolaeth, bydd y gwrandawiad yn cael ei ohirio tan ddiwrnod arall. Bydd y Coleg yn cydymffurfio â pharagraff 7.2 uchod wrth roi rhybudd o'r gwrandawiad wedi'i ad-drefnu. Oni bai bod amgylchiadau arbennig sy'n llesteirio hynny, neu os nad ydych yn gallu mynychu'r gwrandawiad wedi'i ad-drefnu, bydd y gwrandawiad wedi'i ad-drefnu'n digwydd yn eich absenoldeb.

## 8. Rôl y cydymaith

Mae gennych yr hawl i ddod â ffrind neu riant ("cydymaith") i'r gwrandawiad disgyblu. Mae'r dewis o gydymaith yn fater i chi ac mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Coleg o'ch dewis cyn y gwrandawiad. Yn achos myfyrwyr agored i niwed fe gynghorir i chi ddod â chydymaith gyda chi. Os nad yw hynny'n bosibl bydd y Coleg yn darparu eiriolwr i'ch cefnogi yn ystod y gwrandawiad. Yn achos myfyrwyr o dan 16 oed rhaid i riant neu warcheidwad fod yn bresennol. Os bydd y Coleg yn credu bod eich dewis yn afresymol, bydd yn gofyn i chi ddewis rhywun arall. Er enghraifft, os yw'r Coleg o'r farn:

8.1.1 y gallai'ch cydymaith fod â gwrthdaro buddiannau neu ragfarnu'r cyfarfod.
8.1.2 nid yw eich cydymaith ar gael adeg y cyfarfod, os yw dyddiad gwreiddiol y cyfarfod eisoes wedi cael ei ad-drefnu o'r blaen oherwydd nad oedd y cydymaith ar gael.

8.2 Mewn unrhyw wrandawiad disgyblu, gall eich cydymaith annerch y Panel ac ymateb ar eich rhan i unrhyw safbwyntiau a fynegir. Fodd bynnag, mae'r cyfarfod yn ei hanfod yn gyfarfod rhyngoch chi a'r Coleg a dylai unrhyw gwestiynau a ofynnir yn uniongyrchol i chi gael eu hateb gennych chi ac nid gan eich cydymaith, oni bai eich bod yn gofyn i'ch cydymaith ateb ar eich rhan.

## 9. Y Gwrandawiad Disgyblu

9.1 Bydd gwrandawiad disgyblu fel arfer yn cael ei gynnal gan y personau perthnasol a nodir yn y siart llif yn Atodiad 1. Ni ddylai unrhyw aelod o staff y Coleg sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad i'r trosedd (troseddau) disgyblu fod yn aelod o'r Panel, er bod y staff hyn yn gallu cyflwyno unrhyw ddeunydd gwybodaeth i'r gwrandawiad disgyblu.

9.2 Bydd y **Panel Disgyblu** yn ceisio cwrdd o fewn 10 diwrnod yn ystod y tymor ar ôl y gwaharddiad/atgyfeiriad.

9.3 Bydd y Panel Disgyblu yn cynnwys 3 o bobl a ddewiswyd o dîm rheoli neu lywodraethwyr y Coleg. Bydd y Panel Disgyblu yn cael ei gadeirio gan **Uwch Reolwr y Cwricwlwm**.

9.4 Byddwch yn cael eich gwahodd i gyrraedd 30 munud cyn dechrau'r gwrandawiad am sesiwn briffio lawn.

9.5 Bydd y Coleg yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i chi os yw'n bwriadu galw tystion perthnasol.

9.6 Rhaid i chi hefyd roi rhybudd ymlaen llaw i'r Coleg os ydych yn bwriadu galw unrhyw dystion perthnasol.

9.7 Bydd y sawl a benodir i ymgymryd â'r ymchwiliad yn cyflwyno'r achos i'r Panel gyda dadansoddiad o gofnod academaidd y myfyriwr yn y Coleg gan gynnwys cofnod absenoldeb ac unrhyw achosion pryder a gofnodwyd.

9.8 Yn y gwrandawiad, byddwch yn cael cyfle rhesymol i ofyn cwestiynau, cyflwyno tystiolaeth a galw unrhyw dystion perthnasol. Rhaid i'r tystion gael eu cytuno gan y Coleg.

9.9 Efallai y bydd y Coleg yn gohirio'r achos disgyblu os yw'n angenrheidiol neu'n briodol i wneud hynny (gan gynnwys er mwyn casglu gwybodaeth bellach). Yn yr amgylchiadau hyn dylai'r Panel a'i aelodau gwreiddiol ailymgynnull a byddwch yn cael rhybudd o ddyddiad y gwrandawiad ailymgynnull hwn yn unol â pharagraff 7.2.

9.10 Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd yr achos disgyblu, bydd y Coleg yn ysgrifennu atoch chi ac, at eich rhieni neu'ch gwarcheidwad os ydych o dan 18 oed, yn eich hysbysu o'r camau disgyblu, os o gwbl, fydd yn cael eu cymryd. Byddwch yn cael gwybod am eich hawl i apelio o dan Drefn Apelio'r Coleg.

9.11 Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r rheolwr perthnasol am yr holl waharddiadau fel y gall gwasanaethau cymorth gael eu hysbysu, lle bo hynny'n briodol.

9.12 Mae'n bosibl y bydd y Panel Disgyblu yn canfod y canlynol:

9.12.1 Nid ydych chi wedi torri Cod Ymddygiad y Coleg a byddwch yn cael dychwelyd ar unwaith.
9.12.2 Rydych wedi torri Cod Ymddygiad y Coleg a byddwch yn cael rhybudd terfynol ysgrifenedig ag amodau.
9.12.3 Rydych wedi torri Cod Ymddygiad y Coleg, byddwch yn cael rhybudd terfynol ysgrifenedig ag amodau a gwaharddiad estynedig ag amodau neu heb amodau.
9.12.4 Rydych wedi torri Cod Ymddygiad y Coleg ac rydych wedi'ch gwahardd yn barhaol o'r Coleg. Yna dylai'r Cadeirydd hysbysu systemau MIS a TG y Coleg. Gallai'r gwaharddiad gynnwys telerau a fyddai'n galluogi'r myfyriwr i barhau â'i astudiaethau gartref gyda chymorth ei diwtoriaid. Ni ellir ond dewis yr opsiwn hwn gyda chefnogaeth lawn eich maes astudio.

## 10. Panel Asesu Risg

10.1 Os ydych yn dioddef o salwch penodol sy'n effeithio ar eich iechyd a diogelwch eich hun, eich cyd-fyfyrwyr a/neu staff, ac mae'r Coleg yn ystyried ei bod yn amhriodol i chi fynychu'r Coleg, efallai na fydd gwrandawiad disgyblu yn ffordd briodol o weithredu i ystyried unrhyw achosion o dorri Cod Ymddygiad y Coleg. Os felly, bydd y weithdrefn ganlynol yn berthnasol:

10.1.1 Bydd asesiad risg llawn yn cael ei wneud ac yn cael ei oruchwylio gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch.
10.1.2 Bydd y panel risg yn cwrdd o fewn deg diwrnod yn ystod y tymor ar ôl y gwaharddiad/atgyfeiriad er mwyn asesu'r ffordd orau o gynnal unrhyw wrandawiad disgyblu.

10.1.3 Bydd y Coleg yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'r weithdrefn y bydd yn ei defnyddio yn yr amgylchiadau hyn. Bydd penderfyniad y Coleg yn derfynol.

## 11. Apeliadau

11.1 Mae gennych hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan y Panel Disgyblu (Cam 3 - Camymddwyn a Chamymddwyn Difrifol - y Weithdrefn Disgyblu Myfyrwyr). Gweler Gweithdrefn Apelio'r Coleg.

## 12. Dogfennau Cysylltiedig

12.1 Y Weithdrefn Apelio

12.2 Polisi Presenoldeb Myfyrwyr

12.3 Cod Ymddygiad Myfyrwyr

## 13. Yr Iaith Gymraeg

13.1 Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## Coleg Gŵyr Abertawe
## Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr

Gallai myfyriwr gael ei wahardd o'r Coleg os yw ei ymddygiad yn anfoddhaol ac ar ôl ystyried ei achos yn briodol, yn ôl Gweithdrefnau Disgyblu'r Coleg.

**Achos Cyntaf y Myfyriwr o Gamymddwyn**

↓

**Cam 1:**
Cyfarfod gyda'r Tiwtor Personol/ Mentor/aelod enwebedig o staff

**Methu â diwallu'r amodau y cytunwyd arnynt neu ail achos o gamymddwyn**

↓

**Cam 2:**
Cyfarfod gyda'r Tiwtor Arweiniol (myfyrwyr Safon Uwch ac ILS) / Arweinydd Cwricwlwm (myfyrwyr Galwedigaethol) / Rheolwr Dysgu Seiliedig ar Waith

**Methu â diwallu'r amodau y cytunwyd arnynt neu drydydd achos o gamymddwyn**

↓

**Cam 3:**
RhMD/RhMDC

↓

**Apeliadau**
Gall y myfyriwr apelio yn erbyn y penderfyniad trwy ysgrifennu at **Is-bennaeth Gwasanaethau Academaidd** o fewn 5 diwrnod o'r gwaharddiad gyda rhesymau clir dros yr apêl.

**Myfyriwr yn Camymddwyn yn Ddifrifol**

↓

**Aelod enwebedig o staff yn cyfweld** â'r myfyriwr ac yn cofnodi datganiad y myfyriwr a datganiadau gan gyfweleion

Mae'r **myfyriwr yn cael ei wahardd o'r Coleg** tra bydd ymchwiliad

↓

Mae'r **myfyriwr yn cael ei hysbysu o'r cam nesaf** yn y broses:
- Dim camau gweithredu pellach
- Atgyfeirio i Banel Disgyblu neu Banel Asesu Risg

↓

**<u>Os</u> bydd Panel Disgyblu**
Mae'r panel yn cael tystiolaeth gan y myfyriwr, yn clywed tystiolaeth o'r trosedd a gall wrando ar dystion. Bydd y Coleg yn ysgrifennu at y myfyriwr i roi gwybod am y penderfyniad o fewn 7 diwrnod yn ystod y tymor.

↓

**Apeliadau**
Gall y myfyriwr apelio yn erbyn y penderfyniad trwy ysgrifennu at y Pennaeth o fewn 5 diwrnod o'r gwaharddiad gyda rhesymau clir dros yr apêl.

↓

Gall y Panel Apelio gadarnhau'r penderfyniad i wahardd neu ailдderbyn o dan rybudd terfynol ysgrifenedig ag amodau.

**Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob myfyriwr ar bob campws**
Bydd y Coleg yn ystyried unrhyw amgylchiadau pan na fydd myfyrwyr ag anabledd neu salwch yn gallu cydymffurfio'n llawn â'r rheolau.